Consortiwm Canolbarth y De
Central South Consortium

Gwasanaeth Addysg ar y Cyd
Joint Education Service



# Cymraeg

## BWLETIN ARBENNIG | Tachwedd 2022

**Mae'r bwletin arbennig hwn yn rhoi diweddariad i chi ar ddatblygiadau gyda'r Gymraeg yng Nghonsortiwm Canolbarth y De (CCD) a throsolwg o'r amrywiaeth eang o ddysgu proffesiynol (DP) a'r gefnogaeth sy'n parhau i fod ar gael yn rhad ac am ddim i holl ysgolion y rhanbarth.**

Mae dysgu proffesiynol (DP) a chefnogaeth i bob ysgol yn y rhanbarth o ran datblygiad y Gymraeg bellach yn cyd-fynd â phob maes arall. Yn hytrach na Swyddog Cymraeg mewn Addysg dynodedig ar gyfer pob ysgol, mae DP o ansawdd uchel a chefnogaeth i'r Gymraeg yn CCD o fewn 3 maes.

| Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu: Cymraeg | Datblygiad y Gymraeg | Dysgu proffesiynol y Gymraeg |
|---|---|---|
| Dysgu proffesiynol a chymorth ar gyfer datblygiad llafaredd, darllen, ysgrifennu a'r cwricwlwm mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Sgil trawsgwricwlaidd llythrennedd (Cymraeg) mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. | Arweinyddiaeth y Gymraeg i gynnwys, ethos, treftadaeth a diwylliant Cymru mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Datblygu'r defnydd o Gymraeg anffurfiol drwy'r fframwaith Siarter Iaith a Chymraeg ar draws y cwricwlwm mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. | Datblygu sgiliau Cymraeg pob ymarferydd. |

## Cymraeg 2050

Mae **‘Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr’** yn nodi ein huchelgais o greu miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Mae'n cynnwys targedau i gynyddu nifer yr athrawon sy'n gymwys i ddysgu'r Gymraeg fel pwnc a phynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hefyd yn amlinellu'r weledigaeth ar gyfer datblygu sgiliau Cymraeg pob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru i'w galluogi i ddefnyddio'r iaith mewn cyd-destunau bob dydd.

**Cliciwch yma i gael gafael ar ganllawiau pellach Llywodraeth Cymru ar ddatblygu'r Gymraeg yn eich ysgol chi.**

# Y Tîm

## Mae tîm CCD yn darparu...

### Dysgu Proffesiynol

Mae digwyddiadau **dysgu proffesiynol**, rhaglenni, aseiniadau ac adnoddau rhad ac am ddim yn parhau i fod ar gael trwy wefan CCD **yma**.

### Cefnogaeth Bwrpasol

Gellir gofyn am **gefnogaeth bwrpasol** am ddim ym mhob maes datblygiad yng Nghymru drwy Bartneriaid Gwella neu drwy **support@cscjes.org.uk**. Gall hyn fod ar gyfer ysgol unigol, clystyrau, GGYau a grwpiau eraill o ysgolion sy'n cydweithio ar flaenoriaeth gyffredin sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Christopher Newcombe**<br>*Prif Bartner Gwella Polisi,*<br>*Safonau a Gwelliant y Gymraeg* | | | |
| **Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (ILlCh): Cymraeg** | | **Datblygiad y Gymraeg** | **Dysgu Proffesiynol y Gymraeg** |
| **Andy Lillford**<br>*Arweinydd Maes*<br>*ILlCh* | | | |
| **Cyfrwng Cymraeg** | **Cyfrwng Saesneg** | | |
| **Recriwtio ar hyn o bryd**<br>*Ymgynghorydd Cysylltiol* | **Recriwtio ar hyn o bryd**<br>*Ymgynghorydd Cysylltiol* | **Bethan Davies**<br>*Ymgynghorydd Cysylltiol* | **Emma Dermody**<br>*Ymgynghorydd Cysylltiol* |
| **Myfanwy Neal**<br>*Swyddog Datblygu* | **Esther Attree**<br>*Swyddog Datblygu* | **Recriwtio ar hyn o bryd**<br>*Swyddog Datblygiad* | **Emma Davies**<br>*Swyddog Datblygu* |
| **Menna Roberts**<br>*Swyddog Datblygu* | **Julie Bowhay**<br>*Swyddog Datblygu* | | **Debra Durham**<br>*Swyddog Datblygu* |
| **Ceryl Stephens**<br>*Swyddog Datblygu* | **Amanda Mathias**<br>*Swyddog Datblygu* | | |

# Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mae'r Gymraeg yn **elfen orfodol** o'r Cwricwlwm i Gymru sy'n rhychwantu'r continwwm dysgu 3 - 16 oed.

Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (ILlCh) yn mynd i'r afael ag agweddau sylfaenol ar gyfathrebu dynol.

Ei nod yw cefnogi dysgu ar draws y cwricwlwm cyfan a galluogi dysgwyr i ennill gwybodaeth a sgiliau yn y Gymraeg, Saesneg ac mewn ieithoedd rhyngwladol  yn ogystal ag mewn llenyddiaeth.

Mae angen i leoliadau ac ysgolion gynllunio i sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd priodol yn y Gymraeg, yn Saesneg ac mewn ieithoedd rhyngwladol. Mae'r cysyniad o gontinwwm dysgu iaith yn sail i gynnydd yn ILlCh. Bydd dysgwyr yn symud ymlaen o fod ag ychydig neu ddim sgiliau a gwybodaeth iaith tuag at hyfedredd yn yr ieithoedd y maent yn eu dysgu yn yr ysgol.



## Adnoddau i gefnogi ILlCh Cymraeg – Tric a Chlic

Rhaglen ffoneg synthetig Cymraeg ar gyfer ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg yw **Tric a Chlic** sy'n ceisio:

- Dysgu synau a ffurfio llythrennau
- Dysgu strategaethau adeiladol i ddarllen geiriau ac i dorri geiriau i fyny ar gyfer sillafu
- Annog rhuglder a mynegiant wrth ddarllen o'r dechrau
- Cynnig dulliau addysgu rhyngweithiol
- Atgyfnerthu gweithredoedd yn rheolaidd
- Symud yn gyflym o un cam i'r llall

**Cofrestrwch ar gyfer y sesiynau dysgu proffesiynol Tric a Chlic RHAD AC AM DDIM:**

| Ysgolion cyfrwng Cymraeg – DYDDIADAU NEWYDD AR GAEL |
|---|
| **Derbyn** |
| **Blwyddyn 1** |
| **Blwyddyn 2** |

| Ysgolion cyfrwng Saesneg |
|---|
| **Blwyddyn 1**<br>(dewis o 3 dyddiad) |
| **Blwyddyn 2**<br>(dewis o 3 dyddiad) |

Bydd sesiynau wyneb yn wyneb yng Nghanolfan Menter y Cymoedd (VIC), Abercynon.

Gall ysgolion brynu'r adnoddau 'Tric  a Chlic' gan **Peniarth**. Sylwer bod CCD wedi trefnu bod ysgolion yn y rhanbarth yn gallu prynu'r holl adnoddau angenrheidiol am £500 yn hytrach na'r £599 arferol. Nodwch yn glir eich bod yn ysgol CCD wrth brynu.

# Adnoddau ILlCh i gefnogi'r Gymraeg

Mae cyfoeth o adnoddau ar gael i gefnogi'r gwaith o addysgu a  dysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg ar wefan CCD yn y **Gronfa Wybodaeth**. Gellir gweld yr holl adnoddau hyn heb yr angen i fewngofnodi.

- **Tafod Trafod - Gweithgareddau Llafar yn y Cyfnod Sylfaen**
- **Gweithgareddau Sgiliau Darllen Cynnar**
- **Gemau Buarth**
- **Llwyfan Llafar**: Cyn hir bydd yr adnodd hwn i gefnogi ysgolion wrth ddatblygu sgiliau llafaredd cyflwyniadol disgyblion o CC1 i CC4 yn cael ei ddatblygu i gynnwys CC5.
- **Y Silff Lyfrau**: Gwefan ardderchog i gefnogi deunydd Cymraeg yn CA3.
- **Cornel Cerddi**:  Gwefan ryngweithiol ac adnodd dysgu i gefnogi dysgwyr i astudio a mwynhau'r cerddi gosod ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf.
- **Sgwrs – Podlediad CCD**: Siwan Jones, wyres Saunders Lewis yn trafod ei ddrama enwog, Siwan.
- **Codau QR (Ymateb Cyflym) i ddefnyddio llyfrau Cymraeg**
- **Cardiau fflach**
- **Adnoddau Addysgu Uniongyrchol**
- **Sgwrs - Podlediad CCD : Helpwr Heddiw**
- Mae'r **continwwm o batrymau Cymraeg** yn cael ei  ddiweddaru ar hyn o bryd a bydd yn cael ei rannu gydag ysgolion yn fuan.

## Pecyn Trochi Iaith Cynradd




Mae'r pecyn Trochi Cynradd, a grëwyd gan CCD mewn partneriaeth ag Uned Drochi Caerdydd, yn galluogi ysgolion i gefnogi hwyrddyfodiaid yn effeithiol i addysg cyfrwng Cymraeg. Dosbarthwyd pecynnau i bob ysgol Gymraeg yn y rhanbarth ac maen nhw ar gael ar y wefan **yma** hefyd.

Cafodd adnodd i gefnogi ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg ei greu a bydd yn cael ei gyhoeddi yn fuan.

## Prawf  Darllen Cymraeg safonedig CCD




Mae Consortiwm Canolbarth y De wedi cyhoeddi  prawf darllen Cymraeg safonol newydd  ar gyfer disgyblion blynyddoedd 1 i 11 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Cafodd y prawf ei ddatblygu gan academyddion Prifysgol Caerdydd.

Ewch i wefan CCD am **ragor o wybodaeth** neu i **lawrlwytho'r deunydd prawf am ddim**.

Mae CCD bellach yn gweithio mewn partneriaeth ag Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd i ddatblygu prawf sillafu Cymraeg safonol newydd.

# Datblygiad y Gymraeg

## Arweinyddiaeth y Gymraeg

### Siarter Iaith

Mae gan CCD gyfoeth o adnoddau i gefnogi arweinyddiaeth y Gymraeg drwy'r fframwaith Siarter Iaith mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, ac ysgolion arbennig:

- Siarter Iaith – Tuag at y Wobr Aur
- Siarter Iaith – Tuag at y Wobr Arian
- Sgwrs – Podlediad CCD: Siarter Iaith
- Targedau Cymraeg Campus
- Cymraeg Campus – Symud o'r Wobr Efydd tuag at yr Arian
- Sgwrs – Podlediad CCD : Cymraeg Campus
- Cyflwyniad i Cymraeg Campus ar gyfer Ysgolion Uwchradd Cyfrwng Saesneg
- Sgwrs – Podlediad CCD: Gwobr Aur Cymraeg Campus





- Cynhelir cyfarfodydd rhwydwaith yn dymhorol i roi cyfle i gydlynwyr drafod y datblygiad fframwaith y Siarter Iaith ac i rannu arfer gorau. Gellir archebu llefydd trwy'r dolenni isod:

  **Cydlynwyr Siarter Iaith ysgolion cyfrwng Cymraeg)**

  **Cydlynwyr Siarter Iaith Cymraeg ysgolion cyfrwng Saesneg cynradd**

  **Cydlynwyr Siarter Iaith Cymraeg Campus ysgolion cyfrwng Saesneg uwchradd**

- Ydy eich ysgol chi'n barod i gael ei dilysu ar gyfer gwobr Siarter Iaith (CC)? Os felly, cwblhewch y **ffurflen** hon a byddwn yn cysylltu â chi er mwyn trefnu ymweliad gwirio.

- Ydy'ch ysgol chi'n barod i gael ei ddilysu ar gyfer gwobr Campws Siarter Iaith Cymraeg (CS)? Os felly, cwblhewch y **ffurflen** hon a byddwn yn cysylltu â chi er mwyn trefnu ymweliad dilysu.

- Eisiau gwybod mwy am broses ddilysu Siarter Iaith / Siarter Iaith Cymraeg Campus? Darllenwch am y broses swyddogol **yma**.

- Ym mis Tachwedd, byddwn yn recriwtio dilyswyr allanol ar gyfer gwobrau Siarter Iaith / Siarter Iaith Cymraeg Campus. Bydd hwn yn gyfle gwych i ddatblygu'n broffesiynol wrth arsylwi ymarfer ar draws ysgolion CCD. Manylion i ddilyn yn fuan.

- Ers y seremoni wobrwyo Siarter Iaith CCD ddiwethaf ym mis Mawrth 2020, mae llawer mwy o ysgolion wedi llwyddo i dderbyn gwobrau y Siarter Iaith, Cymraeg Campus. Yng Ngwanwyn 2023 byddwn unwaith eto yn cynnal seremoni wobrwyo i ddathlu gwaith caled a llwyddiant ysgolion CCD. Mwy o fanylion i ddilyn.

- Yn dilyn llwyddiant y digwyddiad ers ei gyflwyno yn 2020, cynhelir Diwrnod Seren a Sbarc eto y flwyddyn academaidd hon ddydd Gwener 19 Mai 2023. Bydd mwy o fanylion yn cael eu rhyddhau yn nes at y digwyddiad.

- Ydy eich ysgol chi'n frwdfrydig i ledaenu'r gair am lwyddiant Siarter Iaith / Siarter Iaith Cymraeg Campus? Beth am ddefnyddio un o'r graffeg newydd sbon CCD ar eich gwefan, llythyrau, cylchlythyrau a chyfryngau cymdeithasol? Mae graffeg Siarter Iaith ar gael yn nigwyddiadau **Siarter Iaith CCD** a chymunedau **Siarter Iaith Cymraeg Campus CCD**.




- Mae'r gwisgoedd Seren a Sbarc ar gael i'w benthyg i ymweld â'ch ysgol. Os hoffech fenthyg y gwisgoedd, cwblhewch y **ffurflen**.

- **Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â: Bethan Davies, Ymgynghorydd Cysylltiol Datblygiad y Gymraeg - Bethan.Davies2@cscjes.org.uk**

# Sut galla i ddatblygu'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm?

- **Dysgu proffesiynol anghydamserol Cymraeg ar draws y Cwricwlwm** - Nod y rhestr chwarae hon yw cynnig cymorth i ddatblygu Cymraeg mewn gwahanol feysydd dysgu a phrofiad ar draws y cwricwlwm. Mae'n cynnwys dolenni at gynllunio defnyddiol, adnoddau, a therminoleg.

- **Sgwrs – Podlediad CCD Cymraeg ar draws y Cwricwlwm**

- **Gwefan Caru Cymru Caru Iaith** – Mae'r wefan hon yn llawn adnoddau i gefnogi addysgu'r Dimensiwn Cymraeg ar draws holl feysydd y cwricwlwm.




- Cyngor a syniadau ar sut i gefnogi plant i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y cartref:
  **Cynradd** **Uwchradd**

# Heriau Cymraeg Wythnosol



Rhennir her Gymraeg bob bore Mercher drwy raglen gyfrifion Twitter Cymraeg **@CSC_Cymraeg** a **@CSCSiarterIaith**

Maen nhw'n gyfle i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

Mae'r heriau yn cael eu creu yn ddwyieithog ac mae modd eu defnyddio mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a gan ysgolion cyfrwng Cymraeg fel adnoddau cyswllt cartref.

Mae'r holl heriau blaenorol ar gael ar y Gronfa Wybodaeth **yma** ac mae croeso i ysgolion eu haddasu neu eu golygu.

Eleni, mae Seren a Sbarc wedi cymryd yr heriau drosodd, ond byddant yn dal i gael eu rhannu bob dydd Mercher ac ar gael ar y Gronfa Wybodaeth **yma**.



# Dysgu Proffesiynol Cymraeg ar gyfer Ymarferwyr

Mae datblygu sgiliau iaith Gymraeg ein hymarferwyr a'u gallu i addysgu'r Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol i gyflawni amcanion Cymraeg 2050, Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yr Awdurdod Lleol ac i gyflawni Cwricwlwm i Gymru.

Roedd y **Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth** a **Chynorthwyo Addysgu** yn pennu'r disgwyliad i ymarferwyr ddatblygu eu gwybodaeth a'u defnydd o'r Gymraeg drwy gydol eu gyrfaoedd, yn ogystal ag ymestyn sgiliau a chymhwysedd dysgwyr yn y Gymraeg.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o roi'r safonau proffesiynol ar waith, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu un **fframwaith cymhwysedd Cymraeg ar gyfer ymarferwyr**.

Mae'r fframwaith yn eistedd o fewn y Pasbort Dysgu Proffesiynol ac mae'n galluogi ymarferwyr i nodi eu cynnydd wrth ddatblygu eu sgiliau Cymraeg o AGA (Addysg Gychwynnol Athrawon) drwy gydol eu gyrfaoedd.

Mae'r fframwaith hefyd wedi'i gynnwys yng **Nghyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion** (CBGY) ac mae'r holl ddysgu proffesiynol Cymraeg wedi'i fapio i'r fframwaith i alluogi ymarferwyr i adnabod cyfleoedd sy'n addas iddynt yn hawdd.

Cynghorir bod pob ysgol yn sicrhau yn rheolaidd bod pob ymarferydd yn asesu eu sgiliau Cymraeg yn erbyn y fframwaith cymhwysedd iaith Gymraeg. Yna gall ysgolion ddadansoddi'r data hwn er mwyn adrodd yn fanwl gywir yn y CBGY ac i gynllunio dysgu proffesiynol Cymraeg priodol ar gyfer yr holl ymarferwyr.

## Cynllunio Datblygiad y Gymraeg ar gyfer Ymarferwyr a Chyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY)

Bydd y **rhestr chwarae** newydd hon yn cefnogi arweinwyr ysgolion i adrodd yn gywir sgiliau Cymraeg ymarferwyr yn erbyn y Fframwaith Cymhwysedd iaith Gymraeg yn gywir tra'n ymgymryd â Chyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY) ac i gynllunio'n strategol dysgu proffesiynol priodol i ddatblygu cymhwysedd iaith i bob ymarferydd

## Fframwaith Cymhwysedd Iaith Gymraeg i Ymarferwyr Addysg

Defnyddio'r **adnodd** hwn i ddod o hyd i gyfleoedd dysgu proffesiynol Cymraeg wedi'u mapio i'r Fframwaith Cymhwysedd Cymraeg.



# Dysgu Proffesiynol Cymraeg am ddim ar gyfer ymarferwyr

### Aseiniadau anghydamserol

**Rhan 1** – Dim sgiliau Cymraeg
**Rhan 2** – Lefel Mynediad
**Rhan 3** – Lefel Sylfaen

Mae dewis o ddyddiadau ar gael ar gyfer **digwyddiadau dysgu proffesiynol deuddydd wyneb yn wyneb**. Cynhelir y digwyddiadau i gyd yng Nghanolfan Menter y Cymoedd, Abercynon:

**Dim Sgiliau Cymraeg**
**Lefel Mynediad**
**Lefel Sylfaen**

**Bydd digwyddiadau dysgu proffesiynol Cymraeg cyfunol yn cael eu treialu ym mis Rhagfyr.** Bydd ymarferwyr yn cwblhau'r aseiniadau anghydamserol yn y bore ac yn ymuno â sesiwn ar-lein fyw yn y prynhawn:

| | |
|---|---|
| **Dim Sgiliau Cymraeg** | 05/12/2022 |
| **Lefel Mynediad** | 06/12/2022 |
| **Lefel Sylfaen** | 07/12/2022 |

**Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:**
**Emma Dermody, Ymgynghorydd Cysylltiol Dysgu Proffesiynol y Gymraeg -**
**Emma.Dermody@cscjes.org.uk**

## Cyrsiau Dysgu Cymraeg

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

- Cynhelir y rhan fwyaf o gyrsiau Dysgu Cymraeg mewn ystafelloedd dosbarth rhithwir erbyn hyn, gyda chyrsiau ar gael yn ystod y dydd a gyda'r nos. Mae cyrsiau'n cael eu darparu gan rwydwaith o **ddarparwyr** ar ran y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.
- Gallwch ddod o hyd i gwrs **yma** neu wylio fideo am fwy o wybodaeth.
- Gallwch hefyd danysgrifio i'w tudalen YouTube i wylio fideos ychwanegol **yma**.

**Cyrsiau Dysgu Cymraeg am ddim i ymarferwyr addysg ar bob lefel o gymhwysedd.**

Mae'r cyrsiau yn addas ar gyfer:

- Athrawon cymwys mewn swydd neu sy'n chwilio am swydd
- Athrawon sy newydd gymhwyso sy'n chwilio am gyflogaeth
- Athrawon cyflenwi
- Unigolion sy'n hyfforddi ar hyn o bryd i fod yn athro cymwys
- Cynorthwywyr Addysgu sydd mewn cyflogaeth.
- Arweinwyr
- Athrawon ymgynghorol

**Cyrsiau Cymraeg am ddim i bobl 18 – 25 oed**

**Cymraeg - Ffeithiau Cyflym**

# Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Awdurdodau Lleol

Mae pob Awdurdod Lleol (ALl) newydd gyhoeddi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) newydd ar gyfer 2022-2032, sy'n seiliedig ar dargedau strategol uchelgeisiol sy'n cyfateb â cherrig milltir  Cymraeg 2050.

Cynghorir bod pob ysgol yn ymgyfarwyddo â CSCA eu ALl ac i fod yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau penodol.

Mae CCD yn gweithio mewn partneriaeth ag ALlau ac ysgolion i ddarparu dysgu a chefnogaeth broffesiynol sy'n cyfrannu at dargedau'r CSCAau.

| CSCA penodol yr Awdurdodau Lleol |
|---|
| Pen-y-bont |
| Caerdydd |
| Merthyr Tudful |
| Rhondda Cynon Taf |
| Bro Morgannwg |

Cliciwch yma i ddarllen canllawiau Llywodraeth Cymru ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.



# Ymunwch â'n Cymunedau Cymraeg yn CCD

Anogir ymarferwyr i ymuno â'r amrywiaeth o gymunedau sydd ar gael ar wefan CCD. Maen nhw'n cynnwys adnoddau defnyddiol, cyfathrebu gwybodaeth gyfredol, a rhannu negeseuon cenedlaethol, rhanbarthol a lleol allweddol.

- Crochan Cymraeg Cynradd CCD
- Siarter Iaith Consortiwm Canolbarth y De
- Arweinwyr Pwnc Cymraeg Cynradd
- Siarter Iaith Cymraeg Campus CCD
- Cymraeg Campus Uwchradd
- Cymraeg ar draws y Cwricwlwm
- Cymuned Cymraeg Ail Iaith Uwchradd

# Cyfryngau cymdeithasol

**Yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â phopeth Cymraeg trwy ddilyn ein cyfrifon Twitter:**

@CSC_Cymraeg

@CSCSiarterIaith

# Cysylltu â ni

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau, cysylltwch â ni.**

support@cscjes.org.uk



Consortiwm Canolbarth y De
Central South Consortium

Gwasanaeth Addysg ar y Cyd
Joint Education Service

Consortiwm Canolbarth y De
Central South Consortium

Gwasanaeth Addysg ar y Cyd
Joint Education Service

@CSCJES

support@cscjes.org.uk

**Grymuso ysgolion i wella deilliannau i bob dysgwr**

**Empowering schools to improve outcomes for all learners**